

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag asesu cerbyd trydan a'i arunigo fel ei fod yn ddiogel gweithio arno. Hefyd, mae'n cwmpasu ailegnioli'r cerbyd ar ôl cyflawni'r gwaith gofynnol.

At ddibenion y safon hon, cerbyd trydan yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei yrru'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan drydan. Byddai hyn yn cynnwys:

- Hybrid (HEV) – yn cynnwys cerbydau hybrid ysgafn/micro lle'r ystyrir bod y foltedd yn beryglus.
- Hybrid Plygio i Mewn (PHEV)
- Cerbyd Trydan Pellter Estynedig (ER-EV) neu Gerbyd Trydan ag Ymestynnwr Pellter (RE-EV)
- Cerbyd Trydan Batri (BEV) neu Gerbyd Trydan Pur (PEV)
- Cerbyd Trydan Celloedd Tanwydd (FCEV).

Rhybudd: Mae arbenigwyr y diwydiant yn argymhell mai dim ond pobl â hyfforddiant a phrofiad addas o weithio gyda cherbydau trydan ddylai gyflawni'r swyddogaethau isod.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 Dod o hyd i leoliad gwybodaeth berthnasol am y **cerbyd** a'i defnyddio i bennu unrhyw beryglon posibl

P2 Nodi unrhyw beryglon posibl trwy gynnal asesiad risg dynamig o'r **cerbyd**

P3 Nodi **cydrannau** a cheblau foltedd uchel

P4 Hysbysu cydweithwyr perthnasol o'ch bwriad i weithio ar **gerbyd** foltedd uchel

P5 Dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol cywir wrth arunigo ac ailegnioli'r system foltedd uchel

P6 Sicrhau bod yr ardal waith yn cael ei nodi'n glir a'i gwneud yn ddiogel

P7 Dilyn gweithdrefnau'r gweithgynhyrchwr i arunigo ac ailegnioli'r system foltedd uchel

P8 Gweithio mewn ffordd sy'n lleihau risg:

P8.1 anaf i chi'ch hun ac i eraill

P8.2 difrod i'ch amgylchedd gwaith

P8.3 difrod i systemau, **cydrannau** ac unedau eraill cerbyd

P9 Paratoi, gwirio a defnyddio'r holl gyfarpar profi priodol gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr

P10 Dilyn argymhellion y gweithgynhyrchwr i sicrhau bod y foltedd gweddilliol o fewn manyleb y gweithgynhyrchwr wrth arunigo'r system foltedd uchel

P11 Defnyddio **dulliau profi** addas i werthuso'n gywir berfformiad y system foltedd uchel wedi'i hailegnioli, gan sicrhau ei bod yn perfformio yn unol â manylebau gweithredu'r gweithgynhyrchwr a gofynion cyfreithiol

P12 Cyfeirio unrhyw broblemau gyda'r broses at unigolyn perthnasol yn eich gweithle

P13 Sicrhau bod cofnodion yn gywir, yn gyflawn ac yn cael eu trosglwyddo i'r unigolyn/unigolion perthnasol yn brydlon, yn y fformat gofynnol.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Defnyddio gwybodaeth dechnegol

K1 Y gwahanol fathau o gerbyd trydan a'u systemau trydanol

K2 Y derminoleg sy'n cael ei defnyddio o fewn systemau cerbydau trydan

K3 Sut i ddarganfod, dehongli a defnyddio ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i arunigo ac ailegnioli systemau foltedd uchel cerbyd trydan

K4 Pwysigrwydd gwybod sut a ble i gael at wybodaeth berthnasol am systemau penodol y cerbyd trydan

K5 Sut i bennu lleoliad a llwybr y cydrannau a'r ceblau foltedd uchel

K6 Systemau diogelwch cerbyd foltedd uchel penodol sy'n berthnasol i'ch gwaith

Gofynion a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol

K7 Y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, codau ymarfer neu ganllawiau diwydiant a gweithdrefnau atgyweirio a diogelwch presennol gwneuthurwr penodol y cerbyd sy'n berthnasol i weithio gyda cherbydau trydan

K8 Y peryglon sy'n gysylltiedig â gweithio gyda cherbydau trydan a sut i'w nodi

K9 Sut i ddewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol cywir a phriodol

K10 Sut i weithio mewn ffordd sy'n lleihau risg:

K10.1 anaf i chi'ch hun ac i eraill

K10.2 difrod i'ch amgylchedd gwaith

K10.3 difrod i systemau, cydrannau ac unedau eraill cerbyd

K11 Goblygiadau dargludedd trydanol trwy'r corff dynol

K12 Goblygiadau meysydd magnetig cryf a'r effeithiau ar ddyfeisiau meddygol

K13 Gweithdrefnau'r gweithle y mae'n rhaid eu dilyn os bydd sioc drydanol neu argyfyngau eraill

K14 Gweithdrefnau eich gweithle ar gyfer atgyfeirio/rhoi gwybod am broblemau wrth weithio gyda cherbydau trydan

K15 Sut i roi gwybod i bobl eraill bod gwaith yn cael ei wneud ar gerbydau trydan

K16 Canllawiau penodol y gweithgynhyrchwr a'r rhagofalon sy'n angenrheidiol wrth wefru cerbyd trydan, cysylltu ffynhonnell bŵer ategol ato neu dynnu/codi cerbyd trydan

K17 Y peryglon sy'n gysylltiedig â cherbydau trydan pan fyddant yn dod i gysylltiad â thymereddau eithafol, effaith ac amodau andwyol eraill

Defnyddio cyfarpar profi

K18 Sut i ddewis a defnyddio'r cyfarpar profi trydanol cywir sy'n ofynnol

K19 Sut i raddnodi a phrofi cyfarpar cyn ei ddefnyddio

Arunigo ac ailegnioli systemau foltedd uchel cerbyd

K20 Sut i arunigo ac ailegnioli system foltedd uchel cerbyd trydan gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr

K21 Sut i brofi'n gywir bod y foltedd gweddilliol islaw manyleb y gweithgynhyrchwr yn dilyn y broses arunigo

K22 Sut i ddehongli canlyniadau profion a gwneud argymhellion ar sail y canlyniadau hyn a phwysigrwydd seilio argymhellion ar ganlyniadau profion

K23 Sut i brofi a gwerthuso perfformiad y system yn erbyn manylebau gweithredu'r gweithgynhyrchwr a gofynion cyfreithiol

K24 Pwysigrwydd sicrhau bod pob system cerbyd foltedd uchel yn gweithredu'n gywir ac yn ddiogel cyn rhyddhau'r cerbyd i'r cwsmer

Cwmpas/Ystod

1. **Cerbyd** – unrhyw gerbyd sy'n cael ei yrru'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan drydan. Byddai hyn yn cynnwys
 - 1.1. Hybrid (HEV) – yn cynnwys cerbydau hybrid ysgafn/micro lle'r ystyrir bod y foltedd yn beryglus.
 - 1.2. Hybrid Plygio i Mewn (PHEV)
 - 1.3. Cerbyd Trydan Pellter Estynedig (ER-EV) neu Gerbyd Trydan ag Ymestynnwr Pellter (RE-EV)
 - 1.4. Cerbyd Trydan Batri (BEV) neu Gerbyd Trydan Pur (PEV)
 - 1.5. Cerbyd Trydan Celloedd Tanwydd (FCEV)
2. Mae **dulliau profi** yn cynnwys:
 - 2.1. synhwyrdd
 - 2.2. gweithredol
 - 2.3. mesur
3. Mae **cydrannau** yn cynnwys:
 - 3.1. batris/stac, pod, modiwl
 - 3.2. moduron
 - 3.3. ceblau

Datblygwyd gan	IMI
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	31 Rhag 2020
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Rhag 2023
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	IMI
RCU gwreiddiol	IMIEV4
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd Amaethyddol
Cyfes/Set	Gweithrediadau Peirianeg Diwydiannau'r Tir
Geiriau Allweddol	Cerbyd trydan: diogelwch; ymwybyddiaeth o berygl
